Chwaraeon RhCT
Sport RCT

12 Diwrnod y Nadolig 2021 - 10fed enillydd

# Clwb Bowls Treherbert

Yn gynharach yn y flwyddyn, dechreuodd y clwb siarad â Swyddog o'r Ganolfan Awtistiaeth, yn dilyn cyfarfod gyda Interlink. Yn dilyn ymweliad i asesu cyfleusterau'r clwb, cytunwyd y byddai'r clwb yn cynnal sesiynau ar gyfer pobl ifainc y grŵp. Cadarnhawyd dyddiad ac amser a mynychodd oedolion ifainc o'r Ganolfan Awtistiaeth y sesiwn gyda'u staff cymorth. Cafodd bawb gyfle i chwarae gemau targed. Mwynhaodd y grŵp y sesiwn ac roedd modd iddyn nhw ddatblygu perthynas gyda gwirfoddolwyr y clwb. Mae aelodau'r Ganolfan Awtistiaeth bellach yn ymweld â Chlwb Bowls Treherbert bob dydd Mawrth i ymlacio, chwarae gemau a chymdeithasu.

